

**Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne ar
Nos Lun 3ydd o Ebrill, 2017 am 7.30 y.h.**

Presennol:

Cyng. B. Jenkins, (yn y Gadair)

Cyng. T.A.G. Davies

Cyng. J. George

Cyng. J.J. Powell

Cyng. A. Evans

Cyng. E. Lewis

Cyng. L.L. Owen

Cyng. H.M. Evans

Cyng. C. Lloyd-Morgan

Cyng. R. Jones

Ymddiheuriadau: Cyng. Sh Edwards

Materion Personol

Cyfeiriwyd mai hwn fyddai cyfarfod cyffredinol olaf y Cynghorydd Rowland Jones a fydd yn ymddeol fel Cynghorydd Sir ar ddechrau mis Mai. Diolchwyd i'r Cynghorydd Jones am ei wasanaeth di-flinio i ardaloedd o fewn Ward Ystwyth am dros bum mlynedd ar hugain a dymunwyd yn dda iddo fel a Mrs. Jones ar ei ymddeoliad.

Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 20fed o Chwefror, 2017 fel cofnod cywir. Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Asesiad Risg ac Asedau

Dim materion yn codi.

Carthffosiaeth Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn

Er yr adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf bod y sefyllfa yn gwella cytunwyd bod yr arogl yn parhau i achosi pryder i'r pentrefwyr. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir gan ofyn am ddiweddariad a oes cynlluniau ar y gweill ar gyfer cael system garffosiaeth newydd drwy bentref Llanfihangel-y-Creuddyn ac os felly beth fyddai'r amserlen ar gyfer system o'r fath.

Sefyllfa Band Eang o fewn yr Ardal

Cynigiodd Mr. Martin Jones, Rheolwr Prosiect Cymru gyda BT fynychu cyfarfod o'r Cyngor Bro ar nos Fercher 19eg o Ebrill i rannu gwybodaeth a thrafod datblygiadau yn y system Band Eang Cyflym o fewn Ardal y Cyngor Bro. Cytunwyd i gynnal Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Bro'r noson honno i gyfarfod Mr. Martin Jones.

Materion angen sylw'r Cyngor Sir

Dŵr ger y Gors ar y ffordd C1052

Ni dderbyniwyd manylion pellach a chytunwyd i gadw'r eitem ar yr agenda i ddilyn lan.

Rhiw Dolgwybedig

Derbyniwyd diweddariad gan y Cyngor Sir yn nodi bod y ffordd wedi cynnwys yn rhaglen waith trin wyneb y ffordd am 2017 a gobeithir dechrau ar y gwaith rhwng mis Mai ac Awst. Trafodwyd yr ymateb a chytunwyd fod angen cysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir yn tynnu sylw fod angen gwneud gwaith ar y dreiniau dwr ar hyd y ffordd yn gyntaf cyn canolbwyntio ar gwaith wyneb y ffordd.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

Maes y Felin, Llanafan

Cysylltodd June Blake o Dai Ceredigion gyda diweddariad yn nodi ei bod mewn cysylltiad gyda'r tenant sydd heb waredu'r cerbyd a'i bod yn cadw llygad ar y sefyllfa.

Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn manylion perthnasol i fedru gwneud penderfyniad i symud ymlaen gyda'r cynllun o roddi Goleuad Stryd yn Llanafan neu beidio.

I ddechrau derbyniwyd cadarnhad gan Gyngor Sir Ceredigion fel perchennog y tir yn rhoi caniatâd i'r Cyngor Bro i ddodi polyn ar dir o eiddo'r Cyngor Sir.

Allan o dri cwmni a gysylltwyd gyda i ofyn am brif o gyflawni'r gwaith dim ond un cwmni a gyflwynodd pris sef SSE Lighting Enterprise am bris o £1,230.90 gyda THAW ar ben hynny o ddodi polyn a golau mewn lle yn barod ar gyfer cysylltiad trydan.

Gan mai SP Energy Networks yw'r cwmni sy'n cyflawni trydan yn yr ardal roedd angen cysylltu gyda'r Cwmni yma am bris o gysylltu'r pŵer trydan a derbyniwyd pris am £1,282.03 (£1,068.35 a £213.68 TAW).

Trafodwyd y prisiau uchod ac ystyried mantolen ariannol y Cyngor Bro a chytunwyd fod digon o gyllid ar gael felly penderfynwyd yn unfrydol i fwrw ymlaen gyda'r prosiect o gyflawni un golau stryd ychwanegol ym Mhentref Llanafan ger Cae Heulog.

Cynigiwyd y penderfyniad o fwrw ymlaen gyda'r Cynllun gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.

Draeniau o'r Terrace, Cnwch Coch i Rhydyfagwyr.

Y Cyngor Sir heb weithredu pellach ar y draeniau wedi gorchuddio gan borfa. Cyfeiriwyd hefyd fod y gwteri o Cwmnewidion Isaf tuag at Rhydyfagwyr wedi gorlenwi i gyd ac angen sylw. Y Clerc i gysylltu eto gyda'r Cyngor Sir.

Gwrych i'w thorri yng Nghwmnewidion Isaf

Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir gan ofyn iddynt drefnu i wrych yng Nghwmnewidion Isaf ei thorri gan fod wedi tyfu yn uchel ac yn ymestyn allan i'r ffordd gan wthio cerbydau i deithio i ganol y ffordd.

Arogl Carthffosiaeth yn Llanafan

Derbyniwyd ymateb gan Adran yr Amgylchedd, Cyngor Sir Ceredigion yn cyfeirio er y deallir fod y Cyngor Bro yn bryderus am yr arogl sy'n ymddangos ym Mhentref Llanafan yn achlysurol nid yw swyddogion Cyngor Sir Ceredigion yn medru cysylltu gydag un preswlydd heb dystiolaeth benodol o ble y daw'r arogl. Adroddwyd bod swyddogion wedi ymweld â'r pentref pan dderbyniwyd cwynion blaenorol ond nid oedd digon o dystiolaeth o ble roedd tarddiad yr arogl. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir gan ofyn i'r Swyddogion ail-ymweld gyda'r pentref gan wneud ymholiadau pellach.

Draeniau angen sylw o fewn yr ardal.

Nifer o ddraeniau yn yr ardal angen ei gwaghau.

Grid wedi dod allan o'r Culvart yng Ngwm Rhydyfelin gan adael twll yn y ffordd. Nid oes dim gweithred pellach ar sefyllfa'r Culvart felly'r Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

Drain wedi blocio yn agos at benlon Sarnau.

Rhai o'r tyllau mawr yn y ffordd ar Rhiw Hari, Llanfihangel-y-Creuddyn wedi llenwi ond erbyn nawr mae yna dyllau eraill wedi ymddangos yn gwneud y ffordd yn anwastad, hefyd tyllau dipyn eu maint yn y ffordd wrth ymyl Blaenmagwr ac wrth ymyl Brynmagwr.

Arwyddion Ffydd

Yr angen i ail-osod arwydd cyfeirio at Bentref Llanafan ger Erw Lon uwchben y Pentref. Dim wedi gwneud am yr arwydd ac erbyn nawr mae'r arwydd wedi diflannu.

Gweithred: y Clerc i ddilyn lan ymhellach gan nad oes arwydd newydd wedi ymddangos.

Ffordd yn Erydu

Adroddwyd fod Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn gwneud ychydig o waith o adnewyddu'r ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant a oedd wedi erydu mewn manau.

Bont ger Glanrafon, Llanfihangel-y-Creuddyn

Dim wedi gwneud i'r cwrw sy'n rhydd ar y bont sydd angen sylw.

Gweithred: Dilyn lan ar y sefyllfa.

Cario Cinio Ysgol o Ysgol Llanilar i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn

Ni dderbyniwyd ymateb i'r ymholiad pe na fyddai'r cinio yn medru cyrraedd Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn oherwydd cyflwr y ffordd beth fyddai'r sefyllfa o ran cinio i'r disgyblion.

Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir Ceredigion.

Coed Ffordd Uchaf Llanafan

Adroddodd Cyng. L. Owen ei fod wedi cael addewid gan swyddogion Prifysgol Aberystwyth y dechreuir ar y gwaith o dorri'r coed yr wythnos honno.

Cynghrair Cymunedau Cymraeg

Cafwyd adroddiad llafar gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ar gyfarfod diweddar a fynychodd ar y 4ydd o Fawrth.

Cerbydau yn parcio yn Y Gors

Darllenwyd ymateb wrth Swyddog o'r Heddlu i'r hyn a ddanfonwyd atynt am y cwynion a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd fod cerbydau yn cael eu cadw ym manau parcio ym Mhentref Y Gors. Er bod tipyn o gerbydau yn amharu ar fynediad i eraill i'r manau parcio nid yw'r ceir wedi parcio'n anghyfreithlon nac yn amharu yn ormodol ar welededd o eiddo cyfagos felly nid yw'r heddlu'n medru gweithredu. Cyfeiriwyd hefyd at y ceir sydd wedi parcio ar y groesffordd o'r C1052 i'r B4340 gyferbyn a Thafarn y Gors ond gan fod y cerbydau yma yn amharu ar welededd wrth ymuno gyda'r B4340 mae'r Swyddog Heddlu Lleol wedi cael gair gyda pherchnogion y cerbydau hynny i beidio â pharcio yno eto.

Cytunwyd i gadw'r eitem ar yr agenda i gadw llygad ar y sefyllfa.

Rheiliau Pren

Nid yw'r rheiliau pren sydd wedi torri gyferbyn a Berllanber, Abermagwr wedi adnewyddu hyd yn hyn. Y Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

Torri ar draws Cornel

Yr angen hefyd i barhau i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw pellach fod cerbydau yn torri ar draws y llain lan ger mynedfa i'r Castell ar y ffordd heibio Llannerch yr Oen gan dorri ar draws y cornel ac achosi pridd a mwd ar draws y ffordd.

Materion Cyllidol

Ar 28ain o Chwefror, 2017 roedd gan y Cyngor Bro mewn llaw £5,638.77 yn y Cyfrif Cyfredol; £27.68 yng nghyfrif Maes Chwarae a £1,986.41 yn y Cyfrif Cadw.

Cyflwynodd y Clerc mantolen cyllideb yn nodi'r gwariant am y flwyddyn ac amcangyfrif o'r gwariant am weddill y flwyddyn ariannol. Derbyniwyd y fantolen.

Taliadau

Darllenwyd lythyr o gais am nawdd ariannol wrth Ysgrifennydd Pwyllgor Lisburne tuag at gostau rhedeg y toiledau cyhoeddus wrth ymyl y Neuadd. Penderfynwyd trosglwyddo swm o £100 tuag at gostau rhedeg y toiledau. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. J. Powell ac eiliwyd gan Cyng. A. Davies.

Datganodd Cyng. A. Evans a Cyng. H. Evans ddiddordeb wrth drafod yr eitem ac ymadawyd â'r ystafell yn ystod y drafodaeth.

Penderfynwyd talu anfoneb o £60.00 wrth Bennaeth Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn am ddefnydd o'r Ysgol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Bro o 4ydd Ebrill, 2016 i 5ed Rhagfyr 2016. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. J. George.

Fe dderbyniwyd hefyd lythyr o werthfawrogiad wrth Bennaeth yr Ysgol am y rhodd ariannol a drosglwyddwyd i Gymdeithas Rheini ac Athrawon Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn ar gyfer trefniadau Arolwg diweddar. Trosglwyddwyd llongyfarchiadau'r Cyngor Bro i Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn ar ganlyniad arbennig Arolwg ESTYN ar yr Ysgol ddechrau'r flwyddyn.

Gan fod y Safle We newydd yn weithredol derbyniwyd anfoneb wrth Technoleg Taliesin Cyf am ddatblygu'r wefan a gwasanaeth hostio tan 1/12/17. Penderfynwyd talu'r anfoneb o £520.00. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. H. Evans ac eiliwyd gan Cyng. L. Owen.

TAW

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd swm o £69.10 am ad-daliad TAW o 1af Ebrill, 2015 i 31ain Ionawr, 2017.

GOHEBIAETH

Cais am nawdd ariannol gan Gofal Mewn Galar. Penderfynwyd derbyn y llythyr ond ni fyddid yn danfon nawdd ariannol y tro hwn.

UNRHYW FATER ARALL

Adroddodd Cyng. R. Jones ei fod wedi derbyn cwyn fod y drain wrth y melin llifio (Saw Mills) yn Llanafan angen gwaghau gan fod dwr a mwd yn gorlifo dros y ffordd.

Rheiliau Pren gyferbyn â Phlas y Creuddyn

Cyfeiriwyd at yr angen i dynnu sylw'r Cyngor Sir fod y rheiliau pren gyferbyn â Phlas y Creuddyn wedi dirwyo ac angen ei adnewyddu ar frys gan nad oedd dim yn atal y cyhoedd rhag disgyn i'r afon yno.

Ffordd C1052 o Penuwch Fach i'r Gors

Nid oedd llawer o fannau pasio ar y ffordd uchod a phenderfynwyd cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn am y posibilrwydd o gael manau pasio ar hyd y ffordd yma.

Drain Dwr wedi blocio ger Minafon, Llanafan

Mae yna ddrain dwr wedi blocio ger Minafon ac er i weithwyr y Cyngor Sir allan yn ddiweddar i geisio dadflocio'r drain ni lwyddwyd a byddid angen sylw mwy penodol ar y drain. Y Clerc i ddilyn lan gyda'r Cyngor Sir i sicrhau y cwblheir y gwaith.

Coeden Peryglus

Cyferbyn â'r hen ysgol yn Llanafan tuag at y troad am Maes y Felin mae yna goeden sydd mewn perygl o ddisgyn allan i'r ffordd, gyda'i gwreiddiau yn ymddangos. Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda swyddogion Prifysgol Aberystwyth, fel perchnogion y tir ble lleolir y goeden, gan ofyn iddynt sicrhau torri'r goeden o ran diogelwch y cyhoedd.

Llinellau Ffyrdd

Cytunwyd fod angen ail-baentio'r llinellau gwyn ar y ffyrdd o fewn yr ardal. Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw o hyn.

Goleuadau Stryd ger Gerynant, Cnwch Coch

Derbyniwyd cwyn fod swn cyson yn dod allan o'r golau stryd sy'n amharu ar dawelwch y tai cyfagos. Gweithred: Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i dynnu sylw at y broblem.

Tendr Torri Porfa yn Llanfihangel-y-Creuddyn a thocio Ffordd Uchaf, Llanafan

Mae'r amser o'r flwyddyn wedi dod i roddi hysbysiad am dendr i dorri'r glaswellt ar y Tir Comin yn Llanfihangel y Creuddyn ac ar gyfer tocio'r Ffordd Uchaf ac ati yn Llanafan a chytunwyd i gyhoeddi hysbysiad am y tendrau i'w derbyn ar gyfer trafod yn y Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Bro ar y 19eg o Ebrill.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun 8fed o Fai, 2017 am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburne.